Nature on your doorstep

# Coed a llwyni collddail Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Coed neu lwyni gyda dail hirgrwn neu grwn sy'n colli eu dail yn y gaeaf. Gallwch weld y coed a'r llwyni hyn wrth gerdded yn y wlad, mewn parciau, ac yn y ddinas.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

013




## Ffawydden

*Fagus sylvatica*

Coeden dal gyda rhisgl llyfn, llwyd. Dail sgleiniog, hirgrwn gydag ymylon llyfn a blaen pigfain. Gallu goddef cysgod, gyda dail sy'n gorgyffwrdd cyn lleied â phosib er mwyn dal goleuni'n effeithlon. Mae coetir Ffawydd yn ne-ddwyrain Cymru.




## Oestrwydden

*Carpinus betulus*

Coeden gyda dail hirgrwn, pigfain â choesynnau coch. Ymylon danheddog o feintiau amrywiol. Mae gan y ffrwyth ifanc adenydd papurog tebyg i ddail hir tenau (delwedd isaf). Maen nhw'n tyfu mewn clystyrrau.




## Llwyfen

*Ulmus*

Edrychwch am fonion anghymesur dail hirgrwn y coed hyn. Ymylon danheddog o feintiau amrywiol. Ffrwythau bach, crwn, adeiniog (delwedd isaf). Mae sawl rhywogaeth wahanol gan gynnwys amrywiaethau sy'n gwrsefyll clefyd Llwyfen Yr Iseldiroedd yn well.




## Collen

*Corylus avellana*

Llwyn gyda sawl coesyn yn codi o'r ddaear (delwedd isaf). Dail llydan, hirgrwn i grwn, blewog gyda bôn deilen siâp calon a phig cul. Ymylon danheddog o feintiau amrywiol. Ffrwythau bwytadwy.




## Gwernen

*Alnus glutinosa*

Coeden gyda dail crwm, gyda blaenau pŵl sydd weithiau'n rhiciog, ac ochrau danheddog bach. Cynffonau ŵyn bach gwrywaidd hir yn hongian. Mae'r cynffonnau benywaidd bach yn datblygu'n gônau (delwedd isaf) ac yn aros ar y goeden drwy'r gaeaf tan y flwyddyn ganlynol.